


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Lodge Dental, Monmouth Road,
Y Fenni

Dyddiad yr arolygiad: 13 Gorffennaf 2026

Dyddiad cyhoeddi: 13 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-434-8

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella	23



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Lodge Dental, Monmouth Road, Y Fenni ar 13 Gorffennaf 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o wyth o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 19 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr holl adborth gan gleifion a gawsom ar gyfer Lodge Dental yn gadarnhaol, gyda chleifion yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd yr adborth cadarnhaol gan gleifion yn cyfateb i'r dystiolaeth a welsom yn ystod ein harolygiad, yn enwedig mewn perthynas â'r gofal urddasol a pharchus a ddarperir i'r cleifion drwy gydol eu taith gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau trin oedd ar gael iddynt. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth am risgiau, manteision a chostau eu triniaethau.

Gwelsom fod apwyntiadau'n cael eu rheoli'n dda, gyda mesurau effeithiol ar waith i reoli gofal brys. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym y gallent gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt a bod canllawiau clir yn cael eu darparu iddynt mewn argyfwng.

Clywsom enghreifftiau lle roedd y staff wedi gwneud addasiadau rhesymol i'r lleoliad ar gyfer cleifion a'u tîm i hyrwyddo mynediad cyfartal. Roedd gan y staff rwydd hynt i adnoddau cyfieithu a oedd yn galluogi'r cleifion i gyfathrebu yn eu dewis iaith a gwelsom fod dogfennau hefyd ar gael mewn fformatau gwahanol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd apwyntiadau'n cael eu rheoli mewn modd amserol ac roedd gofal brys yn cael ei frysbennu'n briodol.
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol, gan gynnwys nifer o sylwadau cadarnhaol yn uniongyrchol gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Lodge Dental wedi'i rannu rhwng dau o adeiladau'r practis; roedd un yn cael ei ddefnyddio ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol a'r llall ar gyfer atgyfeiriadau arbenigol. Roedd y ddau adeilad yn cael eu dodrefnu a'u cynnal i safon uchel, roeddent yn drefnus ac yn daclus. Roedd y trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli risg i gyd yn cyrraedd y safonau disgwyledig.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da er mwyn gallu ei ddihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi cyfarpar aml dro yn gadarn ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn gan staff a dywedwyd wrthym fod y practis yn cael ei gadw'n lân. Dywedodd yr holl staff fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt a bod gweithdrefnau rheoli heintiau effeithiol ar waith.

Roedd cyfarpar brys y practis yn cael ei wirio'n rheolaidd gan staff ac wrth arolygu, gwnaethom nodi fod pob eitem yn bresennol ac o fewn eu dyddiadau dod i ben. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond nifer bach o'r staff a oedd wedi cwblhau cwrs hyfforddiant penodol a oedd yn ofynnol gan hysbysiad diogelwch cleifion diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd yr holl gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnig darlun addas o'r gofal oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion, gan gynnwys adroddiad cyfoes o'r holl driniaethau oedd yn cael eu darparu. Gwelsom hefyd fod y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol, gan gynnwys amrywiaeth o glinigwyr arbenigol sy'n gweithio o'r practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau'r camau gweithredu a amlinellir yn hysbysiad diogelwch cleifion 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y gofynion hyfforddiant.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis wedi'i orffen i safon uchel, gyda'r cyfarpar i'w weld mewn cyflwr da
- Roedd y trefniadau diogelu yn addas ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym mai gofal y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Ychwanegodd yr ymatebwyr y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo a phe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis. Roedd y staff a welsom yn yr arolygiad yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn garedig.

Roedd y trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth i'w weld yn gadarn, a dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod wedi teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth iawn i gwblhau eu rolau yn effeithiol. Gwnaethom nodi bod y polisïau a'r gweithdrefnau i gyd yn gyfredol ac yn cael eu rheoli gan system ddigidol gadarn.

Ar y cyfan, roedd cofnodion y staff yn dal yr holl wybodaeth berthnasol i sicrhau darlun llawn o'u cyflogaeth. Fodd bynnag, yn yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt, ni welsom dystiolaeth fod geirdaon yn cael eu storio ar ffeil, sydd ei angen arnom er mwyn i'r practis wella. Roedd cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant yn uchel, a gwelsom fenter cinio a dysgu gadarnhaol yn cael ei chynnal i'r staff yn rheolaidd. Roedd digwyddiadau hyfforddiant i ymarferwyr yn ategu'r sesiynau hyn, gyda phractisau eraill yn cael eu gwahodd i fynychu er mwyn rhannu dysgu a phrofiadau.

Roedd cwynion yn cael eu trafod yn briodol ac yn unol â pholisi'r practis. Gwelsom fod y practis yn defnyddio dull rhagweithiol i adolygu cymheiriaid clinigol a gwelsom fod rhai gweithgareddau gwella ansawdd wedi'u cynnal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod cofnodion personél cyflawn yn cael eu cadw bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dull rhagweithiol o adolygu cymheiriaid clinigol, gweithio mewn partneriaeth â phractisau eraill a chinio a dysgu i'r staff
- Roedd adborth a chwynion yn cael eu trafod yn briodol gan reolwyr
- Roedd adborth cadarnhaol yn cael ei dderbyn gan yr holl staff a ymatebodd i arolwg AGIC.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd yr ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn' (7/8) neu'n 'dda' (1/8). Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd awyrgylch hyfryd yn y practis bob amser. Mae pawb yn edrych yn hapus yn eu gwaith.”

“Mae'r staff yn hynod gyfeillgar ac yn mynd y filltir ychwanegol i helpu. Mae Lodge yn ddrutach na'r deintydd cyffredin, ond rwy'n eu defnyddio'n gyson am fod y profiad a safon y gofal yn werth bob ceiniog.”

“Does gen i ddim byd ond canmoliaeth i'r gwasanaeth a'r driniaeth rwyf wedi'u cael ers dechrau'r driniaeth. Mae staff y dderbynfa'n gyfeillgar ac yn broffesiynol. Bu [Staff member] yn eithriadol, yn gydymdeimladol ac yn gefnogol. Roedd [Staff member] hefyd yn amyneddgar ac yn broffesiynol wrth gynnal triniaeth sianel y gwreiddyn ac mae'r nyrsys deintyddol mor gyfeillgar, gofalgarn a chefnogol.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardaloedd aros y cleifion a oedd yn hyrwyddo ffyrdd o gynnal iechyd y geg da, yn atal clefyd y deintgig ac yn nodi arwyddion o ganser y geg. Roedd cleifion yn cael cynnig cynhyrchion deintyddol am ddim er mwyn hyrwyddo iechyd y geg da a gwnaethom nodi bod hyn yn fenter gadarnhaol. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld yn ardaloedd y dderbynfa ac ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer triniaethau ac enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) wedi'u harddangos mewn man y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd oriau agor a manylion cyswllt brys y practis yn cael eu harddangos yn glir ar ddrysau ffrynt dau adeilad y practis.

Gofal urddasol a pharchus

Drwy gydol eu taith fel cleifion, gwelsom fod cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus gan y staff yn y practis hwn. Dywedodd yr holl ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch ac roeddent yn teimlo y gallent gael y gofal iechyd iawn ar yr adeg iawn, ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu

cwestiynau. Dywedodd yr holl ymatebwyr hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad, a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth. Roedd sylwadau'r cleifion am staff y practis yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi cael profiad gwych yn Lodge bob amser. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn bob amser.”

“Mae tîm y dderbynfa'n wych ac yn ymatebol iawn.”

Roedd amgylchedd y practis yn y ddau adeilad yn hyrwyddo gofal urddasol ac roedd staff yn cymryd camau i sicrhau preifatrwydd y cleifion wrth gael eu trin mewn deintyddfeydd. Roedd y rhan fwyaf o'r galwadau ffôn yn cael eu hateb mewn ardal nad oedd wrth brif ddesg y dderbynfa a'r ardaloedd aros er mwyn atal pobl eraill rhag gallu clywed sgysiau cleifion. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod ardaloedd dynodedig yn cael eu defnyddio pan oedd angen cynnal sgysiau cyfrinachol.

Dywedodd yr holl ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael ei gynnal a bod y cleifion yn cael gwybodaeth ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd yr holl staff hefyd eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn eu rhoi i gleifion. Dywedodd y staff wrthym:

“Mae gweithio yn Lodge Dental yn darparu tîm cefnogol dros ben sydd wir yn poeni am y cleifion maent yn eu trin, a hynny ar bob cam o'u taith.”

“Mae'n canolbwyntio'n fawr ar gleifion, ac yn deall pwysigrwydd cynnal safonau uchel.”

Roedd gan y practis gymal cyfrinachedd mewn contractau a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff mewn perthynas ag amddiffyn gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn ardaloedd y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth ymateb i holiadur AGIC fod iechyd eu ceg wedi'i esbonio iddynt mewn ffordd yr oeddent yn gallu ei deall a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar ac yn ysgrifenedig am iechyd y geg ac ôl-ofal i'r cleifion a oedd wedi'u tawelyddu. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Dywedodd yr ymatebwyr fod y costau wedi'u hegluro iddynt cyn y driniaeth a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon cyn y driniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli apwyntiadau a oedd yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Esboniodd y staff fod yr amser aros rhwng apwyntiadau trin yn dibynnu ar yr ymarferydd yr oedd y cleifion yn dymuno'i weld ond pythefnos ydoedd ar gyfartaledd. Rhoddodd y staff wybod i ni fod deintydd newydd wrthi'n cael ei recriwtio ac roeddent yn gobeithio y byddai hyn yn lleihau'r amseroedd aros i gleifion.

Roedd cleifion yn gwneud apwyntiadau i'r dyfodol wyneb yn wyneb ar ôl eu triniaethau, dros y ffôn neu roedd modd trefnu rhai apwyntiadau penodol ar-lein. Dywedodd y staff wrthym nad oedd eu hapwyntiadau'n aml yn rhedeg yn hwyr, ond lle'r oedd achosion o oedi, roedd y clinigwyr yn rhoi gwybod i staff y dderbynfa er mwyn iddynt roi gwybod i'r cleifion. Os nad oedd claf wedi cyrraedd eto, byddai unrhyw achos o oedi'n cael ei gyfathrebu â nhw dros y ffôn a byddai apwyntiadau newydd yn cael eu cynnig. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Cawsom wybod sut roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu yn unol â'r cleifion oedd ar gael lle roedd hynny'n bosibl, gan gynnwys blaenoriaethu cleifion pediatrig yn ystod y gwyliau ysgol.

Gwelsom fod staff y dderbynfa'n gweithredu system brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn blaenoriaethu'r rhai yr oedd angen gofal brys mwyaf arnynt, gan ymgynghori ag ymarferwyr pan oedd angen. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau gwaith arferol wedi'i roi i gleifion gysylltu â'r practis pe bai argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud os bydd argyfwng a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau ar waith i helpu i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng clinigwyr a chleifion, gyda'r staff yn rhoi gwybod i ni eu bod yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chlaf yn ei ddewis iaith. Roedd offer cyfieithu ar gael i'r staff gyfathrebu â chleifion pan oedd angen, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais cleifion.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom sut roedd hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion yn cael eu cefnogi'n weithgar gan y practis. Gwnaethom nodi bod polisïau addas ar waith a sut roedd y staff

yn cwblhau hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion ac i atal aflonyddu neu wahaniaethu.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion, gan gynnwys y gweithfannau a'r cadeiriau oedd ar gael i un aelod o'r staff yn dilyn anaf. Roedd rampiau a chanllawiau hefyd wedi'u hychwanegu at ochr allanol un o adeiladau'r practis er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd dau adeilad y practis i'w gweld mewn cyflwr boddhaol yn fewnol ac yn allanol. Gwelsom fod adeiladau'r practis yn daclus yr olwg a'u bod newydd gael eu hadnewyddu i safon uchel. Roedd 12 deintyddfa, dwy ystafell ddihalogi ymroddedig ac ardaloedd aros o faint priodol wedi'u gosod ar draws dau adeilad y practis. Gwnaethom nodi bod un o'r adeiladau'n cael ei ddefnyddio ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol a'r llall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol, fel gwasanaeth mewnblannu. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio ac roedd toiledau'r staff a'r toiledau i gleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Dywedwyd wrthym fod y staff yn newid yn y toiledau neu ystafelloedd y staff a bod rhywfaint o le storio personol ar gael. Cawsom wybod bod loceri'n cael eu caffael ar gyfer staff. Dywedodd yr holl staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod y cyfleusterau yn briodol iddynt gwblhau tasgau penodol a bod yr amgylchedd yn addas i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol rhwng pob defnydd. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol, a bod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Gwelsom fod tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy ar gyfer y ddau adeilad. Roedd asesiadau risg ar gyfer amgylcheddau'r practis, yn ogystal ag iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau ac roeddent yn cyrraedd y safonau disgwylidig.

Gwelsom fod gwaith cynnal a chadw a phrofi rheolaidd wedi'i gynnal ar yr holl gyfarpar diogelwch tân, ochr yn ochr â'r ymarferion gwagio adeilad os bydd tân. Roedd yr

asesiad risg tân ar gyfer dau adeilad y practis wedi'i gwblhau gan contractwr allanol ac roedd yn nodi sawl gwelliant yr oedd disgwyl i'r practis ei gwblhau i set o amserlenni penodol. Roedd y rhain yn cael eu bodloni ar hyn o bryd a rhoddodd rheolwyr y practis wybod i ni eu bod yn mynd i'r afael â gweddill y camau gweithredu. Gwnaethom gynghori'r practis i barhau i weithio tuag at y gwelliannau hyn mewn modd amserol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau diogelwch tân.

Gwelsom fod tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau boddhaol ar waith er mwyn helpu i gynnal safon dda o lendid yn adeiladau'r practis. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC (7/8) fod y practis yn 'lân iawn' a dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau. Dywedodd yr holl staff a ymatebodd i holiadur AGIC fod y sefydliad wedi rhoi polisi rheoli heintiau ac amserlenni glanhau effeithiol ar waith. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd fod yr amgylchedd yn caniatáu arferion rheoli heintiau effeithiol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd i'r holl staff a chafodd hyn ei gadarnhau gan yr holl staff a ymatebodd i holiadur AGIC. Roedd arferion hylendid dwylo yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau cadarn ac ar arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy contract preifat ac roedd y manylion ar gael yn hwylus i'r staff.

Yn nwy ystafell ddihalogi'r practis, gwelsom fod yr amgylchedd a'r holl gyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel i helpu i sicrhau bod offer aml dro yn cael eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio'r offer yn yr ystafelloedd dihalogi yn gadarn. Gwnaethom edrych ar gofnodion o wiriadau dyddiol o gylchred yr awtoclaf a phrofion ar gyfer y peiriannau, ond nid oedd tystiolaeth ar gael ar y pryd bod profion cynhwysydd gwasgedd yn cael eu cynnal. Anfonwyd y dystiolaeth hon at AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir mewn perthynas â dihalogi cyfarpar.

Gwnaethom nodi bod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir o dan contract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gynhwysfawr. Roedd y meddyginiaethau brys a oedd ar gael

yn y practis yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol, a gwelsom hefyd fod cyffuriau brys priodol ar gael ar gyfer cleifion a oedd yn cael tawelydd ymwybodol mewnwythiennol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf.

Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r pecyn cymorth cyntaf, y diffibriliwr a'r ocsigen. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gwiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau ocsigen. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r practis gwblhau'r camau gweithredu a nodir yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041, gan gynnwys gofynion hyfforddiant.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r polisi hwn, gydag unrhyw ddiweddariadau'n cael eu cyfathrebu drwy hyfforddiant. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant i lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod yr holl ddyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn addas at y diben. Gwelsom fod holl ddyfeisiau a chyfarpar y practis yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos tystiolaeth bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag angen clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Roedd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent yn gwybod pryd y dylid gofyn am gyngor proffesiynol perthnasol, pan fo angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod cleifion yn deall y triniaethau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt, ynghyd â rhestrau gwirio cynhwysfawr er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir. Roedd trefniadau cadarn hefyd ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol yn ddiogel. Roedd yr amgylchedd oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tawelyddu ymwybodol yn briodol ac yn cefnogi gofal diogel, gyda deintyddfeydd o faint digonol i gefnogi triniaethau, adferiad y claf ac i reoli argyfyngau meddygol yn effeithiol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn system ddigidol ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn rhoi darlun addas o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i nodi'n effeithiol, rhesymau dros fynychu, siartiau sylfaenol llawn, sgrinio ar gyfer canser y geg, yn ogystal â disgrifiad o'r triniaethau a roddwyd.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol, gan gynnwys therapydd a hylenydd y practis. Roedd gan y practis hefyd amrywiaeth o glinigwyr arbenigol a oedd yn ymgymryd â gwasanaeth mewnblannu, periodontoleg, endodonteg a llawdriniaeth y geg. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd yr adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym mai gofal y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Ychwanegodd yr ymatebwyr y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio a byddent yn hapus â'r safonau gofal a ddarperir yn y practis pe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym eu bod yn gallu ymdopi â gofynion croes eu hamser yn y gwaith; roedd ganddynt y deunyddiau a'r cyfarpar i wneud eu gwaith ac roedd digon o amser i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis a gallent gael mynediad at yr holl systemau digidol yr oedd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da i gleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (18/19) wrthym fod y practis yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a dywedodd yr holl ymatebwyr fod eu patrwm gwaith yn caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym nad oedd eu swyddi yn niweidiol i'w hiechyd. Fodd bynnag, roedd dau aelod o'r staff yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwnnw, ac roedd y practis yn dymuno adlewyrchu hyn ac ymchwilio ymhellach iddo gyda'r staff.

Ymhlith y sylwadau testun rhydd a gafwyd gan staff yn holiadur AGIC roedd:

“Dydw i ddim wedi cael dim byd ond cymorth eithriadol ers dechrau yn Lodge!”

“Mae gofal cleifion wrth wraidd popeth ac mae pob un ohonom yn gweithio'n galed iawn gyda chymorth y rheolwyr i ddarparu amgylchedd hamddenol, gofalgarn a phroffesiynol i bawb.

“Lle gwych i weithio ynddo, gyda thîm cefnogol a gwych.”

“Mae'n cefnogi cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i redeg y practis yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn hyderus a dywedodd wrthym ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn cael ei gefnogi gan y perchennog a'r cyfarwyddwr i redeg y practis. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr i drafod newidiadau neu welliannau.

Gwelsom fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng timau gwahanol ar draws tîm y practis yn rheolaidd. Ar ôl edrych ar gofnodion yr holl gyfarfodydd ffurfiol sydd wedi'u cynnal yn y practis, gwelsom fod trafodaethau yn cael eu cynnal o ran digwyddiadau,

cwynion a rheoli apwyntiadau. Gwnaethom nodi sut mae'r practis yn ymgymryd â digwyddiadau bob dwy flynedd ar gyfer holl staff y practis.

Roedd system ddigidol addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd holl bolisiâu'r practis yn cael eu cadw ar ffurf copi caled mewn ffolderi a oedd yn cael eu cynnal yn dda ac a oedd yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt a'u darllen. Roedd pob polisi ar gael ar borth ar-lein newydd ei sefydlu. Roedd y polisiâu a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn garedig. Roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn cefnogi ei gilydd yn gadarn. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Prin oedd y defnydd o staff asiantaeth, ac ni allai'r rheolwyr ond feddwl am ambell achlysur lle roeddent wedi cael eu defnyddio yn ddiweddar. Roedd y systemau a oedd ar waith ar gyfer gwirio a sefydlu staff asiantaeth a ddefnyddiwyd yn y practis yn briodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél saith aelod o'r tîm yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestrïadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer a bod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cofnodi yn eu ffeiliau. Fodd bynnag, nid oedd chwech allan o'r saith o ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys tystiolaeth bod dau o wiriadau geirda wedi'u cwblhau. Roedd dau ganolwr wedi'u cofnodi ar ddau o'r chwe chofnod ond nid oedd tystiolaeth wedi'i chofnodi ar y pedwar arall. Roedd un geirda wedi'i gofnodi ar y seithfed cofnod arall. Gwnaethom drafod yr angen i gadw tystiolaeth ddogfennol ar gyfer pob gwiriad cyn cyflogi oedd yn cael ei gynnal ac asesiad risg addas i gofnodi'n ffurfiol y mesurau lliniaru risg sydd ar waith ar gyfer unrhyw wybodaeth cyn cyflogi sydd ar goll.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cyflogaeth llawn eu cadw bob amser.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth llawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd y staff yn cael digon o amser i gwblhau eu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym eu bod hefyd yn cael eu cefnogi i ymgymryd â datblygiad ychwanegol penodol i'r rôl, a oedd wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Gwnaethom nodi hefyd fod y practis yn cynnal sesiynau cinio a dysgu yn ogystal â diwrnodau

hyfforddiant ar gyfer eu staff eu hunain a chlinigwyr o bractisau eraill. Gwnaethom nodi bod y staff a oedd yn ymwneud â darparu tawelyddu ymwybodol wedi cael eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rolau. Roedd gan reolwr y practis system effeithiol ar waith i fonitro pob achos o gydymffurfio â hyfforddiant yn y practis.

Dywedodd y staff a ymatebodd i'r holiadur a ddosbarthwyd gan AGIC eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, dywedodd un aelod o'r staff y byddai'n ei chael hi'n ddefnyddiol cael hyfforddiant penodol ar lawdriniaeth blastig periodontol.

Roedd pob aelod o'r staff yn y sampl o gofnodion a welsom wedi cael arfarniad. Gwelsom fod arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac eglurodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (15/19) a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon. Dywedodd pob aelod o'r staff ond un a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Dywedodd pob aelod o'r staff y byddai'r practis yn trin y rhai sydd ynghlwm wrth roi gwybod am y digwyddiad mewn ffordd deg ac y byddai'r practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai'r digwyddiadau yn digwydd eto.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd y cleifion yn derbyn neges destun yn gofyn iddynt lenwi arolwg cleifion yn dilyn eu hapwyntiad ac roedd blwch awgrymiadau ar gael hefyd. Gwelsom fod arolygon wedi'u cwblhau yn cael eu gwirio pan oeddent yn dod i law rheolwyr y practis ac roedd y blwch awgrymiadau'n cael ei adolygu bob yn ail wythnos. Byddai ymatebion i adborth yn cael eu hychwanegu at y cylchlythyr rheolaidd i gleifion ac ar wefan y practis.

Roedd y polisi cwynion yn ymddangos yn addas ac roedd ar gael i'r cleifion heb iddynt orfod gofyn am gopi ym mhob ystafell aros. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai cleifion gysylltu ag ef, ac yn nodi amserlen glir ar gyfer ymateb i unrhyw gŵyn a'i datrys. Roedd unrhyw gwynion a oedd yn cael eu gwneud ar lafar yn cael eu cofnodi gan staff y dderbynfa a'u cyfathrebu â'r rheolwr cwynion. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i amlinellu yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a oedd wedi dod i law'r practis a gwelsom eu bod wedi cael eu trafod yn unol â pholisi'r practis ac nid oedd unrhyw themâu yn dod i'r amlwg.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal o'r radiograffau, presgripsiynu gwrthfotigau, gwastraff clinigol a chofnodion cleifion. Defnyddiodd y practis hefyd ddull rhagweithiol o adolygu cymheiriaid clinigol o fewn y practis a gyda gwasanaethau eraill yn yr ardal. Gall y practis ddymuno ystyried ehangu ei raglen gwella ansawdd ymhellach drwy gynnwys gweithgareddau ychwanegol, fel archwiliadau'n ymwneud â rhoi'r gorau i smygu, hygrychedd, iechyd a diogelwch, neu ddefnyddio adnoddau datblygu tîm cydnabyddedig.

Wrth adolygu'r archwiliadau dihalogi a gynhelir, gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu cwblhau yn erbyn safonau cymwys yn Lloegr yn hytrach nag yn erbyn safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy'n gymwys yng Nghymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau dihalogi eu cynnal yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn y dyfodol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys eu timau yn y feddygfa a'r fferyllfa leol. Yn ogystal, roedd y practis yn cynnal cydberthnasau effeithiol gyda phractisau deintyddol eraill yn ei ardal drwy ymgymryd â nosweithiau astudio a digwyddiadau cymdeithasol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau a oedd yn cyrraedd ac yn gadael yn y practis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgwyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgwyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Lodge Dental, Monmouth Road

Dyddiad yr arolygiad: 13 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Lodge Dental, Monmouth Road

Dyddiad yr arolygiad: 13 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwelsom dystiolaeth hefyd o wiriadau cynnal a chadw a gwasanaethu gofynnol wedi'u cynnal ar y silindrau ocsigen. Fodd bynnag, dim ond nifer bach o'r staff oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion (PSN) 041 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.	Rhaid i'r practis gwblhau'r camau gweithredu a nodir yn Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041, gan gynnwys gofynion hyfforddiant.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (1)	Bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ocsigen penodol BOC yn unol â Hysbysiad Diogelwch Cleifion 041.	Helen Knifton	31 Awst 2026
2.	Nid oedd chwech allan o'r saith o ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys tystiolaeth bod dau o wiriadau geirda wedi'u cwblhau. Roedd dau ganolwr wedi'u cofnodi ar ddau o'r chwe chofnod ond	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cyflogaeth llawn eu cadw bob amser.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 18 (1)	Bydd gwiriadau geirda yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod newydd o staff ac yn cael eu cadw yn ffeil yr aelod hwnnw. Bydd asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer	Helen Knifton	31 Awst 2026

	nid oedd tystiolaeth wedi'i chofnodi ar y pedwar arall. Roedd un geirfa wedi'i gofnodi ar y seithfed cofnod arall. Gwnaethom drafod yr angen i gadw tystiolaeth ddogfennol ar gyfer pob gwiriad cyn cyflogi oedd yn cael ei gynnal ac asesiad risg addas i gofnodi'n ffurfiol y mesurau lliniaru risg sydd ar waith ar gyfer unrhyw wybodaeth cyn cyflogi sydd ar goll.			staff presennol nad oes ganddynt ddau eirfa.		
3.	Wrth adolygu'r archwiliadau dihalogi a gynhelir, gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu cwblhau yn erbyn safonau cymwys yn Lloegr yn hytrach nag yn erbyn safonau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 sy'n gymwys yng Nghymru.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff archwiliadau dihalogi eu cynnal yn unol â gofynion Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 yn y dyfodol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 16 (1)	Roedd archwiliad dihalogi wedi'i gynnal yn erbyn gofynion Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 a bydd yn cael ei gynnal bob chwe mis.	Helen Knifton	31 Awst 2026

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Helen Knifton

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 25 Awst 2026